**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 7 Medi 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J W Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | M H Jones | T M White |
| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phil Holmes | Head of Economic Regeneration and Planning |
| Bethan Hopkins | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C Anderson, S J Gallagher, O G James a/ac A H Stevens
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Cylch gorchwyl.**

Trafododd y Cynullydd rôl y panel a nodwyd y Cylch Gorchwyl, fel y'i pennwyd gan y Pwyllgor Craffu.

3 **Briffio Swyddogion**

Rhoddodd Phil Holmes, Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas, drosolwg o'r gwasanaeth. Rhododd wybodaeth i'r panel am strwythur, cyllid a pherfformiad y gwasanaeth a phrosiectau sydd ar y gweill. Amlinellodd hefyd ei rôl yn y gwasanaeth a sut mae ei staff a'r timau yn cysylltu â meysydd gwaith penodol.

Cyfeiriodd at nifer o brosiectau datblygu ac adfywio.

- Bargen Ddinesig Bae Abertawe
- Abertawe Ganolog (Cynllun Ailddatblygu Canol y Ddinas)
- Ardal Ddigidol Ffordd y Brenin
- Gwaith Copr yr Hafod-Morfa

Cyfeiriodd hefyd at welliannau o ran:

- Tîm Rheolaeth Canol y Ddinas
- Prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Cynllun Ynni a Menter Gymunedol Abertawe
- Rhaglen Partneriaeth Tirwedd Gŵyr
- Rhaglen Fuddsoddi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Cynlluniau Datblygu Gwledig

Pwyntiau allweddol a godwyd:

- Mae'r prosiectau y cyfeiriwyd atynt yn rhai blaenllaw ac yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl
- Mae cyllideb cyfalaf yr adran yn amrywio bob blwyddyn gan ddibynnu ar grantiau a'r incwm allanol a gyflawnwyd ar gyfer y flwyddyn honno
- Nod y prosiectau datblygu ac adfywio yw dod â busnesau i Abertawe a'u cynnal.

Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn falch iawn fod craffu'n edrych ar agenda mor fawr a diddorol.

Roedd cwestiynau aelodau'n canolbwyntio ar:

- Effeithiau ariannol Brexit
- Mae dadansoddiad o gyllid Cyngor Abertawe'n cyfrannu at y prosiectau, gan gynnwys y rhai cydweithredol
- Marchnata a hyrwyddo'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni
- Gwybodaeth am yr achosion busnes sy'n cael eu datblygu ar gyfer prosiectau unigol

4 **Cynllun Gwaith 2017/2018**

Trafodwyd cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

I gefnogi ei rôl fonitro, cytunwyd y byddai'r panel yn canolbwyntio'n syth ar sefydlu gwybodaeth am yr holl brosiectau mawr presennol i greu trosolwg o ddatblygiad ac adfywio.

Nodwyd y materion canlynol:

- Byddai'r achosion busnes yn rhan fawr o'r gwaith
- Byddai cyfarfodydd y dyfodol yn cynnwys tai
- Bydd y cynllun gwaith yn datblygu dros amser
- Bydd agendâu'n datblygu fel y bydd gwybodaeth ar gael.

**Cadeirydd**